

Polisi Cynladwyedd ac Amgylcheddol Mentrau Iaith Cymru

Mae Mentrau Iaith Cymru yn ymroddedig i hyrwyddo materion Cynladwyedd ac Amgylcheddol o fewn y cwmni. Mae achosion amgylcheddol a hyrwyddo agenda cynladwyedd ehangach yn ran canolog o'r ffordd mae Mentrau Iaith Cymru yn rhedeg a rheoli'r busnes.

Rydym wedi mabwysiadu ymwybyddiaeth ac ymarferion sy'n sensitif i'r amgylchedd, nid yn unig o ran rhwystro llygredd a diogelu'r amgylchedd, ond hefyd o ran cyfrannu at welliannau amgylcheddol parhaol.

Mae'r Polisi Cynladwyedd wedi'u selio ar yr egwyddorion canlynol:

- *Cynnwys materion cynladwyedd i mewn i bob penderfyniad o fewn y cwmni*
- *Cydymffurfio, ble yn ymarferol, gyda pob deddfwriaeth, rheoliadau a chod ymarfer brthnasol.*
- *Sicrhau fod bob aelod o staff yn ymwybodol o'r Polisi Cynladwyedd ac Amgylcheddol ac yn ymroddedig i weithredu'r polisi*
- *Sicrhau fod aelodau a chyflenwyr yn ymwybodol o'r Polisi Cynladwyedd ac Amgylcheddol i annog mabwysiadu ymarferion rheoli cynladwyedd da*
- *Adolygu ac i weithio i wella ein perfformiad o ran Cynladwyedd a'r Amgylchedd*

Teithio a Thrafnidiaeth

Mae Mentrau Iaith Cymru yn ymrwymedig i:

1. Gymryd camau i leihau allyriadau CO2 ac unrhyw lygredd gall effeithio ar yr amgylchedd
2. Cynnwys costau llawn ar ffyrdd mwy cynladwyedd efo trafndiaeth yn gynigion ariannol yn hytrach na'r costau rhatach bob amser
3. Osgoi teithio i gyfarfodydd ayyb ble mae yna ddewis mwy ymarferol ar gael, e.e. defnyddio sustem fidio gynadleddau neu gwe gamerau ac i'r cyfarfodydd fod yn amserol i osgoi sawl trip. Fydd dewisiadau fel hyn yn fwy effeithiol o ran amser heb aberth y manteision o gysylltu yn aml efo aelodau a phartneriaid
4. Cerdded, beicio a/neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i deithio i gyfarfodydd, i ymweld â safleoedd gwaith ayyb. Heblaw mewn amgylchiadau arbennig ble nad yw hyn yn ymarferol neu yn rhy gostus
5. Annog staff i rannu ceir ble yn bosib teithio i'r gweithle neu i gyfarfodydd
6. Ble mae'n berthnasol, ystyried yr angen i aelod o staff deithio i'r gweithle i wneud ei gwaith, wrth gefnogi gweithio o adre, neu oriau mwy hyblyg. Annog a hyrwyddo mwy o ddefnydd o drafndiaeth gyhoeddus, fel bws a thrên wrth sefydlu swyddfeydd mewn lleoliad mwy cyraeddadwy

Pwrcasu offer a defnydd o adnoddau yn y swyddfa

1. Lleihau'r defnydd o bapur a nwyddau traul, e.e. defnyddio dwy ochr o bapur i argraffu neu ysgrifennu ac adnabod cyfleoedd i leihau ar wastraff yn gyffredinol yn y swyddfa
2. Ailgylchu papurau, poteli a chaniau ac unrhyw ddefnydd meddalwedd cyfrifiadurol ac offer diangen
3. Defnyddio ynni mewn modd effeithiol ac ymarferol wrth ddewis yn ofalus a bwriadol yr holl ddeunyddiau gweithio a archebir gan y cwmni er mwyn sicrhau y dewisir yr opsiwn mwyaf addas a sensitive i'r amgylchedd
4. Prynnu trydan o gyflenwyr sydd yn ymroddedig i faterion adnewyddol. Ceisio maximeiddio cyfran o ffynonellau egni adnewyddol ond hefyd cefnogi buddsoddiad mewn cynlluniau adnewyddai newydd
5. Cyflwyno dull gweithredu i sicrhau fod contractwyr yn deall ac yn ymwybodol yn ei gwaith fod angen arbed gwastraff i leihau'r effaith ar yr amgylchedd
6. Sicrhau fod dodrefn wedi'u wneud allan o bren, ac unrhyw gynnyrch eraill o bren wedi cael ei ailgylchu o ffynonellau cynaladwy

Arfer Gwaith

1. Sicrhau fod bob aelod o staff cyflogedig o fewn y cwmni, a hefyd contractwyr ac is-contractwr yn ystyried materion cynaladwyedd, fel rhan o'i gwaith. Yn enwedig wrth weithio i gleientiaid/cwsmeriaid ar ran y cwmni
 2. Cynnwys copi o Bolisi Cynaladwyedd ym mhob cynnig gwaith i gleientiaid/cwsmeriaid.
- Mae'r polisi yma yn cael ei adolygu yn flynyddol gan y Pwyllgor Rheoli

Cymeradwywyd gan y Pwyllgor:.....

Arwyddwyd gan y Cadeirydd:.....

Dyddiad ADolygu: Medi 2020